WATKINS, Syr PERCY EMERSON (1871 - 1946); gwas sifil

Enw: Percy Emerson Watkins
Dyddiad geni: 1871
Dyddiad marw: 1946
Priod: Lil Watkins (née Lewis)
Priod: Mary Jane Watkins (née Jones)
Rhiant: Mary Watkins (née Mills)
Rhiant: Evan Watkins
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwas sifil
Maes gweithgaredd: Addysg; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
Awdur: Wynn Powell Wheldon

Ganwyd 3 Rhagfyr 1871 yn Llanfyllin, yn fab i Evan a Mary Watkins, ac yn un o ddeg o blant. Addysgwyd yn yr ysgol elfennol, ac am bum tymor yn ysgol Owen Owen yng Nghroesoswallt. Dychwelodd i gynorthwyo'i dad, nes y penodwyd ef yn 1887 y clerc cyntaf i'r Bwrdd Canol (y ' Central Welsh Board'). Yn 1904 penodwyd ef yn brif glerc i bwyllgor addysg y West Riding, swydd Efrog. Dychwelodd i Gymru yn 1911 yn gofrestrydd coleg y Brifysgol, Caerdydd, ac yno y gwasanaethodd nes ei benodi yn ysgrifennydd cynorthwyol i'r Comisiwn Yswiriant Cenedlaethol yng Nghaerdydd.

Yn 1925 dilynodd (Syr) Alfred T. Davies yn bennaeth adran Gymreig y Bwrdd Addysg, ac yno ar unwaith bu'n foddion i sicrhau cydweithgarwch da, er cryn fantais i'r adran Gymreig a oedd eto yn newydd a dibrofiad. Felly hefyd yng Nghymru enillodd ddealltwriaeth hapusach rhwng yr adran Gymreig yn Llundain â'r Bwrdd Canol yng Nghymru.

Yn ystod ei wasanaeth yn y Bwrdd Addysg cyhoeddwyd (1931) adroddiad pwysig ar ' Broblemau Addysg yn ardaloedd Gweithfaol Deheudir Cymru ' a fu'n foddion i gynhyrchu datblygiadau newydd yn addysg y werin. Bu Watkins bob adeg yn gefn i addysg y werin, ac yr oedd ymysg y cwmni bychan i osod coleg Harlech ar ei draed yn 1927. Hefyd (yn 1927) cyhoeddwyd gan y Bwrdd Addysg adroddiad pwyllgor adrannol, sef *Y Gymraeg mewn addysg a Bywyd*. Aeth Watkins a'i holl egni i wneuthur awgrymiadau y pwyllgor yn hysbys ac effeithiol. Trefnodd i arolygu safle'r iaith yn yr ysgolion, a chymhellodd arolygwyr y Bwrdd i archwilio yn llwyr bob agwedd ar addysgu Cymraeg a Saesneg yn yr ysgolion. O ganlyniad cafwyd dau femorandwm yn cynnwys awgrymiadau ar gyfrannu addysg yn y Gymraeg ac yn Saesneg yn yr ysgolion. Dyma'r ymdrech swyddogol gyntaf i osod gerbron athrawon yr ysgolion elfennol rai egwyddorion y gallent ymddiried ynddynt i ddatrys problemau'r iaith. Penderfynodd Watkins yn 1933 ymddeol o'i swydd yn y Bwrdd Addysg i ymgymeryd â chyfarwyddo Cyngor y Gwasanaeth Cymdeithasol yn y Deheudir, er cryn golled iddo yn ariannol. Am y deng mlynedd olaf o'i oes cyflwynodd ei hunan i'r gwaith hwn gyda'r unplygrwydd anhunanol a dyngarol a oedd mor amlwg yn ei nodweddu ar hyd ei oes.

Priododd, 1898, Mary Jane Jones, Llanfyllin, a ganwyd iddynt un mab. Yn 1930 gwnaethpwyd ef yn farchog, a derbyniodd radd LL.D. ('er anrhydedd') gan Brifysgol Cymru. Bu farw Lady Watkins yn 1939 ac ail-briododd yntau yn 1941. Bu farw ar 5 Mai 1946. Yn ychwanegol at amryw erthyglau a memoranda cyhoeddodd hunan-gofiant yn 1944 o dan yr enw *A Welshman Remembers*.

Awdur

Syr Wynn Powell Wheldon, (1878 - 1961)

Ffynonellau

Percy E. Watkins, *A Welshman Remembers. An autobiography, etc.* (Caerdydd 1944) (1944)

gwybodaeth bersonol

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 71151050194733412835

Wikidata: Q18922178

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Wheldon, W. P., (1970). WATKINS, Syr PERCY EMERSON (1871 - 1946); gwas sifil. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-WATK-EME-1871

Copïo'r Cliprwydd

Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government